# Bwletin y Farchnad HCC

Mawrth 2024

> **Wrth i gynhyrchwyr cig oen brofi prisiau giât fferm arbennig o gryf, mae'r Bwletin y Farchnad hwn yn edrych ar rai o'r ffactorau y tu ôl i hyn a'r hyn sydd i ddod 'r sector.**
>
> **Glesni Phillips – Swyddog Gweithredol Deallusrwydd, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes**



Mae'r cyfartaledd pwysau marw SQQ ar gyfer ŵyn ar draws Prydain wedi bod yn **cryfhau** ar gyfraddau cyflym yn ystod yr wythnosau diwethaf. Ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 16 Mawrth, roedd y cyfartaledd yn £7.90/kg - llawer uwch na'r cyfartaleddau hanesyddol o tua 50%. O ganlyniad i **9 wythnos yn olynol o gynnydd mewn prisiau**, mae'r cyfartaledd presennol wedi codi £1.74 ers wythnos gyntaf 2024, ac mae bellach wedi rhagori ar y pris uchaf a gofnodwyd y llynedd o tua £7.43/kg ym mis Mai.

## CYFLENWAD CIG OEN

Er gwaethaf y prisiau cryf hyn, mae'r **diadell bridio** defaid yn y DU a Chymru **yn dirywio**, gyda chynnig *Cynllun Ffermio Cynaliadwy Cymru* yn debygol i roi pwysau ar niferoedd pellach. Oherwydd cnwd cig oen llai 2023-24, mae'r cyflenwad o ŵyn sy'n dod i'r farchnad ar hyn o bryd yn dynn o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach a lefelau galw cyfredol. Mae hyn yn rhoi cefnogaeth sylweddol i brisiau'r giât fferm. Oherwydd natur y tymor wyna, mae 'blwyddyn' cnwd cig oen yn cael ei chofnodi o fis Mai hyd at yr Ebrill canlynol, ac nid yn ôl blwyddyn galendr. Mae data trwybwn gan Defra ar gyfer y cyfnod Mai23-Chwefror24 yn dangos bod cyfanswm o **10.2 miliwn o ŵyn** wedi cael eu prosesu yn y DU hyd yma eleni, sy'n debyg i lefelau blwyddyn yn gynharach, er gwaethaf arolwg Mehefin yn datgelu bod y cnwd cig oen 6% yn llai na'r lefelau blwyddyn yn gynharach. Mae hyn yn dangos bod **nifer cyfyngedig o ŵyn yn aros** ar ffermydd.

## DYDDIADAU ALLWEDDOL YN Y CALENDR

Dim ond 6% o boblogaeth y DU sy'n bwyta cig oen bob wythnos, o'i gymharu â mwy na 60% o ddefnyddwyr halal. Er bod y defnydd o gig oen ar ein marchnad ddomestig yn parhau dan bwysau, mae'r boblogaeth Fwslimaidd yn y DU yn ehangu'n gyflym, ac felly mae marchnad Halal o bwysigrwydd cynyddol i sector defaid y DU. Ar y 10fed o Fawrth gwelwyd dechrau **Ramadan** - gŵyl Islamaidd sy'n gyrru'r galw am broteinau fel cyw iâr a chig oen bob blwyddyn. Fel arfer, gwelir y defnydd uchaf o gig oen yn ystod gwyliau crefyddol, a gyda'r **Pasg** a diwedd Ramadan (a elwir yn **Eid al-Fitr**) yn agosáu, mae'n debygol y bydd y cyflenwad cyn y dyddiadau allweddol hyn yn y calendr yn dynn. O edrych ymhellach ar ddyddiadau gwyliau allweddol yn 2024; mae disgwyl i ŵyl **Qurbani** gael ei chynnal ganol mis Mehefin (galw am ŵyn hyrddod, yn cyfan a thros 6 mis oed sydd orau yma). Gan mai Qurbani yw 'gŵyl y wledd', mae'r galw am gig oen ar ei anterth tua'r adeg hon.

| | |
|---|---|
| **Ramadan** | yn dechrau 10 Mawrth 2024 |
| **Pasg** | 31 Mawrth 2024 |
| **Eid al-Fitr (*diwedd Ramadan*)** | 9 – 10 Ebrill 2024 |
| **Eid al-Adha** | tua 16 Mehefin 2024 |

## Y FARCHNAD FYD-EANG

M ae patrymau masnach hefyd wedi rhoi rhywfaint o anogaeth i'r farchnad ddomestig. Mae amcangyfrifon HCC o ddata HMRC yn dangos bod **allforion cig defaid o Gymru yn gryf** yn 2023 - cynnydd o 10% o ran gwerth i gyfanswm o £190.9 miliwn. Mae hyn yn awgrymu, er gwaethaf y twf economaidd lleiaf posibl ar draws marchnadoedd y Byd oherwydd lefelau chwyddiant, bod galw o hyd am gig oen yn ein gwledydd allforio. Fodd bynnag, bydd yr amgylchedd masnachu ar gyfer 2024 yn parhau i fod yn **farchnad gystadleuol**, yn enwedig gan y rhagwelir y bydd diadell defaid yr UE yn dirywio ymhellach. Rhagwelir y bydd mwy o allforion o Awstralia gan fod y ddiadell ddefaid ar ei **lefel uchaf** ers 2007, ond mae'n debyg y bydd Tsieina (*marchnad fewnforio fawr ar gyfer cig defaid, ac yn cyfrif am 38% o fasnach cig defaid y byd*) yn profi llai o alw am fewnforio oherwydd mwy o gynhyrchu. Gall hyn arwain at lefelau uwch o allforion Awstralia ar farchnad y byd. Rhagwelir y bydd Seland Newydd yn cofnodi cynnydd mewn cynhyrchiant cig defaid yn 2024, ond bydd yn rhaid iddo frwydro yn erbyn **prisiau cystadleuol giât fferm Awstralia** yn y marchnadoedd allforio.

> ***Beth mae hyn yn ei olygu i'r diwydiant?***
>
> *Gyda'r cyflenwad presennol o ŵyn mewn ffermydd yn gyfyngedig, a rhai gwyliau crefyddol allweddol ar y gorwel; pa mor uchel y gall prisiau gatiau fferm fynd?*

RHWNG Y LLINELLAU
BETWEEN THE LINES

**ADRODDIAD RHWNG Y LLINELLAU NEWYDD** I ddarllen mwy am y farchnad cig oen presennol, darllenwch yr adroddiad llawn, 'Cyflenwad Cig Oen – Diweddariad a Throsolwg' ar wefan HCC yma: https://meatpromotion.wales/en/news-industry-info/market-analysis

## GWARTHEG

### Prisiau – wythnos yn gorffen 16 Mawrth

Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **493.2c/kg**. Roedd hyn:


- - 1.7c ar yr wythnos flaenorol,
- 9.9c uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.


Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer categorïau gwartheg eraill fel a ganlyn -

- Heffrod: 490.5c/kg (-0.7c ar yr wythnos),
- Teirw ifanc: 470.6c/kg (-0.7c ar yr wythnos), a
- Buchod difa: 346.7c/kg (+1.2c ar yr wythnos).

### Trwybwn - Chwefror 2024

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 222,900 pen – cynnydd o 5% ar y flwyddyn
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 173,200 pen - i fyny 7% ar y flwyddyn.
  - ➢ *bustych +4%, heffrod +10%, a theirw ifanc +2%.*
- •Cyfartaledd pwysau carcasau gwartheg dethol = 345.0kg (+1.4kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 53,200 pen - cynnydd o 4% ar y flwyddyn.




## DEFAID

### Prisiau – wythnos yn gorffen 16 Mawrth

Cyfartaledd pris oen pwysau marw ym Mhrydain yw 789.8c/kg. Roedd hyn:

- + 46.1c ar yr wythnos flaenorol


Fe wnaeth y niferoedd oedd yn dod ar y farchnad gyrraedd 37,450 pen. Roedd hyn:


- + 6% ar yr wythnos flaenorol, a
- - 13% o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach.

> ***Nodyn:*** *Oherwydd newid ym methodoleg arolwg pwysau marw Prydain Fawr (o 25/11/2023) rydym yn argymell bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau hanesyddol.*

### Trwybwn - Chwefror 2024

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.0 miliwn pen – cynnydd o 0.3% ar y flwyddyn.
- Trwybwn oen = 909,400 pen – cynnydd o 2% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas oen ar gyfartaledd = 20.2kg (+ 0.2kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 120,100 pen – i lawr 9% ar y flwyddyn.




## MOCH

### Prisiau – wythnos yn gorffen 9 Mawrth

Roedd Pris Mochyn Cyfan Manyleb yr UE (APP) ym Mhrydain Fawr yn sefyll ar **211.6c/kg**. Roedd hyn:

- + 1.2c ar yr wythnos flaenorol,
- + 2.6c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 49.4c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 162.2c/kg).

### Trwybwn - Chwefror 2024

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 783,900 pen – gostyngiad o 1% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 765,600 pen – i lawr 1% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas moch heb fagu ar gyfartaledd = 90.6kg (+1.9kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 18,300 pen – cynnydd o 17% ar y flwyddyn

